# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2012** |
| Amser: | **09:05 - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_27_03_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Rob Hepworth, Yr Ymgyrch yn erbyn Llosgydd Casenewydd a Sir Fynwy**<br>**Haydn Cullen Jones, Yr Ymgyrch yn erbyn Llosgydd Casenewydd a Sir Fynwy**<br>**Tim Maddison, Y Rhwydaith yn erbyn Llosgyddion yn Ne Cymru**<br>**Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Rob Quick, Prosiect Gwyrdd**<br>**Mike Williams, Prosiect Gwyrdd**<br>**Matthew Farrow, Y Gymdeithas Gwasanaethau**<br>**Julie Barratt, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd**<br>**John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**<br>**Jasper Roberts, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Andy Rees, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd ymddiheuriadau.
Diolchodd y Cadeirydd i Joyce Watson am gadeirio'r cyfarfod ar 13 Mawrth.

## 2. Trafod y dystiolaeth a gafwyd ynghylch P-04-335 Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i Gymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywodd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb i'r ohebiaeth a anfonwyd at Cricket Scotland a Cricket Ireland.

## 3. Deisebau newydd

3.1 P-04-371 Tocynnau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus i bob plentyn hyd at 18 oed

3.2 P-04-382 Costau teithio i fyfyrwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus

Cafodd deisebau P-04-371 a P-04-382 eu grwpio ar gyfer eu trafod, a bu'r Pwyllgor yn eu trafod am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor:
I wirio a yw'r Gweinidog ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch deisebau tebyg;
I dynnu sylw'r Gweinidog at y deisebau pellach hyn;
I edrych ar ddyddiadau ymweliad y Pwyllgor â'r gogledd i weld a fyddai'n bosibl clywed tystiolaeth gan fyfyrwyr fel rhan o'r ymweliad hwnnw.

3.3 P-04-378 Ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y Gweinidog.

3.4 P-04-379 Diwrnod Coffáu Hil-laddiad yr Armeniaid

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.
Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn y mater gan ei fod wedi llofnodi Datganiad Barn Ysgrifenedig am y pwnc.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y Prif Weinidog i ohebiaeth y Pwyllgor am y mater.

3.5 P-04-380 Dewch yn ôl â'n bws! Deiseb yn erbyn diddymu'r gwasanaethau bws o ddwyrain Llanbedr Pont Steffan, Cwm-ann a Phencarreg

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor:
I aros am ymateb y Gweinidog i ohebiaeth y Pwyllgor am y mater;

Ysgrifennu at Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) am y mater.

3.6 P-04-381 Adfer Ysbyty Gogledd Cymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y Gweinidog i ohebiaeth y Cadeirydd am y mater.

3.7 P-04-383 Yn erbyn dynodiad Parth Perygl Nitradau ar gyfer Llyn Llangors

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y Gweinidog i ohebiaeth y Cadeirydd am y mater.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-04-354 Datganiad cyhoeddus yn cefnogi Bradley Manning

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth yn ymwneud â'r mater hwn.

**Cam i'w gymryd**
Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd a chytunodd i aros am ymateb gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

4.2 P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a'r Deisebydd.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor:
I ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddo gynnwys eglwysi annibynnol yn nhrafodaethau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
I ofyn i'r Gweinidog pryd fydd cyfarfodydd cyhoeddus am y Bil Treftadaeth yn cael eu cynnal a hysbysu'r deisebydd;
Ysgrifennu at Cadw am y mater.

4.3 P-04-356 Galwad i'r materion a osodwyd yn yr adroddiad ar bêl-droed yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2007 gael eu hadolygu

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i gynghori'r deisebydd i gyflwyno ei sylwadau i ymgynghoriad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar bêl-droed yng Nghymru, ac i gau'r ddeiseb.

4.4 P-03-124 Cysgliad

Bu'r Pwyllgor yn ystyried datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i anfon copi o drawsgrifiad cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth at y deisebydd a chau'r ddeiseb.

4.5 P-04-348 Targedau ailgylchu ar gyfer byrddau iechyd
4.6

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a'r deisebydd.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan nad yw'r targed a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn un statudol, a chytunodd i gau'r ddeiseb.

4.7 P-04-359 Problemau gyda'r GIG ar gyfer y byddar

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac un ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn iddo gadw golwg ar y mater, a chytunodd i gau'r ddeiseb.

4.8 P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.
Datganodd Joyce Watson fuddiant yn y ddeiseb gan ei bod wedi ymgymryd â gwaith ar y mater yn flaenorol.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion, fel yr awgrymwyd gan y Dirprwy Weinidog.

4.9 P-04-353 Ymgyrch yn erbyn troseddau casineb yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, sef y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb o ystyried gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y mater hwn, a'i ymrwymiad i gadw golwg ar y mater.

## 5. P-04-341 Llosgi gwastraff - sesiwn tystiolaeth lafar
Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

## 6. P-04-341 Llosgi gwastraff - sesiwn tystiolaeth lafar

Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor:
I ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am y datganiad gan Grŵp Gweithredu Unedig y Cymoedd (UVAG) bod Llywodraeth Cymru wedi atal cais y cyngor i gaffael triniaeth fiolegol fecanyddol a bod pwysau ariannol arno i ymuno a'r Prosiect Gwyrdd;
Anfon datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef bod elfen o losgi ynghlwm â phob dull o ymdrin â gwastraff, ymlaen at y deisebwyr i gael eu barn arno.

Cytunodd cynrychiolwyr y Prosiect Gwyrdd i anfon manylion ynghylch faint o dunelli o ludw peryglus sy'n gorfod cael ei drosglwyddo o ganlyniad i losgi ac a oes unrhyw losgyddion sy'n cael eu cau yn yr Unol Daleithau yr un math â'r rhai sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru.

## 7. P-04-341 Llosgi gwastraff - sesiwn tystiolaeth lafar
Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

**Cam i'w gymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i gomisiynu ymchwil i weld a fyddai cyrraedd targedau ailgylchu'n golygu llosgi llai o wastraff, a all arwain at gosbau ariannol os nad oes gan losgyddion ddigon o wastraff i'w losgi.

## 8. P-04-341 Llosgi gwastraff - sesiwn tystiolaeth lafar
Bu'r Gweinidog a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor.

**Cam i'w gymryd**
Yn dilyn ei rôl flaenorol fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lindsay Whittle AC i ofyn iddo am brofiad Caerffili o ran y Prosiect Gwyrdd.

## 9. Papurau i'w nodi

9.1 P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove

9.2 P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus

9.3 P-04-358 Ailgyflwyno cymorth cartref ar gyfer plant sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig a'u teuluoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

## Trawsgrifiad
Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.]()